# GRIFFITH, JOHN THOMAS (1845 - 1917), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

**Enw:** John Thomas Griffith
**Dyddiad geni:** 1845
**Dyddiad marw:** 1917
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** William Joseph Rhys

Ganwyd yn Penyparc, Bro Morgannwg, 1 Ionawr 1845. Bedyddiwyd ef 20 Mai 1859 ym Mhisgah, Pîl, gan John Roberts ('Fawr'). Ceir ef yn Aberpennar yn 1862. Dechreuodd bregethu, a phriododd yn Ionawr 1865. Ymfudodd i Scranton, America, a gweithiai mewn glofa. Fe'i hordeiniwyd gyda'r Cymry yn Newburg, Cleveland. Bu mewn 20 o eglwysi. Claddodd ei wraig yn 1905, a phriododd ferch o Risca yn 1907. Dychwelodd o Edwardsdale i Gymru yn 1908. Ar ôl bugeilio eglwys Saesneg Maerdy am ychydig, ymneilltuodd i Fynydd Cynffig. Cychwynnodd achos Saesneg Kenfig Hill yn 1911. Ceid ef yn Thomastown, Tonyrefail, o Fedi 1912 hyd Dachwedd 1913. Ymwelodd ag America yn 1914. Lluestodd wedi dychwelyd ym Maesteg gan ymaelodi ym Methania hyd ei farwolaeth 19 Mehefin 1917. Darlithiodd lawer ar faterion hanesyddol yngl n â'r enwad. Cyfieithodd gyfrolau Spinther ar *Hanes y Bedyddwyr yng Nghymru* yn Saesneg a'u cyflwyno i athrofa Crozer, America. Ysgrifennodd *Morgan John Rhys* yn Saesneg (1899) ac yn Gymraeg yn 1910; *Hanes Eglwys Fedyddiedig Penyfai*, 1916; *Reminiscences*, 1913, atgofion o'i fywyd yn America, Ebrill 1865-Ebrill 1908; *Brief Biographical Sketches of Welsh Baptist Ministers in Pennsylvania*, 1904, trigain namyn un; *History of the first Baptist Church of Wilkesbarre and Scranton*, 1905.

## Awdur

**Y Parchedig William Joseph Rhys**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


*Seren Gomer*, Ionawr 1918

J. T. Griffith, *Reminiscences forty-three years in America, from April, 1865 to April, 1908* (1913)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733673

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu